

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangernyw Nos Fercher, Hydref 24^{ain} 2018 am 7.30yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

Conwy Cynhaliol

- Daeth Meira Woosnam (MW) o brosiect Conwy Cynhaliol o fewn adran Gwledig Cyngor Sir Bwrdeistref Sirol Conwy atom i roddi cyflwyniad ynglŷn â Prosiect Adnewyddadwy.
- Roeddent wedi galw allan am brosiectau ynni digidol ac ynni adnewyddadwy ac yn chwilio am leoliadau i dreialu gosod celfi wedi eu pweru gan ynni adnewyddol.
- Roeddent yn edrych am leoliadau awyr agored a oedd yn boblogaidd o ran defnydd gan bobl leol a thwristiaid ac yn anghysbell ac yn bell o ffynonellau pŵer. Enghreifftiau o gelfi oedd meinciau, barbiciws, goleuadau ayb.
- Y nod oedd annog pobl i aros am gyfnodau hirach mewn atyniadau gwledig ac fe fyddai'r treial o fudd i'r gymuned leol a thwristiaid, gan annog rhyngweithio trwy ddarparu gofod cymunedol sy'n hygyrch i bawb.
- Fe gynigodd MW mainc adnewyddadol ar gyfer pentref ym Mro Cernyw a fyddai hefyd posib pweru ffon symudol ohono
- Fe fyddai'r prosiect yn talu am y fainc, ac yr arian cyfatebol gan y Cyngor Cymuned fyddai'r gost o osod y fainc. Os ceir cwmni lleol yna ni ragwelir y byddai'r gost yn uchel iawn.
- Trafodwyd ambell syniad arall hefyd cyn i MW ddod ai chyflwyniad i ben a diolchwyd iddi am ei hamser.

Gweithred:

- I'w drafod yn y cyfarfod nesaf lle fyddai orau i'r fainc gael ei leoli. (Eitem i'r Agenda)

Croeso ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, Einir Williams.

1.2 Presennol:

Diane Roberts (DR)

Clwyd Roberts (CR)

Ann Vaughan (AV)

Gwyn Williams (GW)

R. Emlyn Williams (REW)

Gwynfor Davies (GD)

Elen H. Edwards (EHE)

1.3 Ymddiheuriadau:

Cyng. Garffild Lloyd Lewis (GLL)

Gerallt Evans (GE)

1.4 Absennol:

Gwydion Jones (GJ)

1.5 Cytunodd EHE i gofnodi'r cofnodion yn absenoldeb Clerc

1.6 Llongyfarchwyd Gwydion ag Elen Jones ar enedigaeth Nanw.

2. Datgan diddordeb

Datganwyd diddordeb gan GD ynglŷn ag eitem 10. Blychau Teliffon Llangernyw a Phandy Tudur

5.1 Eitem 5.1 – Adeiladau'r Hen Felin

Penderfynwyd delio ag eitem 5.1 cyn mynd ymlaen a gweddill yr agenda.

- Roedd Mrs Lynda Kettle yn bresennol i drafod stad yr adeiladau a dangos ei phryder a pherygl idda nhw fel teulu ynghyd a'r cyhoedd.
- Mae Cyng. GLL wedi ysgrifennu at Peter Brown, sef Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i ddatgan ei bryder hefyd am stad yr adeilad.
- DR am edrych yn ôl drwy hen gofnodion y Cyngor Cymuned i gofnodi'r holl ohebiaeth sydd wedi bod gyda'r teulu ynglŷn â'r adeilad.
- Cyng. GLL wedyn am wneud achos i'r Swyddog Gorfodaeth o fewn CBSC.

Gweithredoedd adran 5:

- DR i edrych drwy ohebiaeth y Cyngor Cymuned
- Cyng. G.LIL i wneud achos i'r Swyddog Gorfodaeth CBSC.

3. Cofnodion Cyfarfod Medi 26^{ain} 2018

- Cyn symud ymlaen gyda'r cofnodion fe drafodwyd newid noson y cyfarfodydd i noson arall yn yr wythnos yn hytrach na nos Fercher.
- Cynigodd AV eu bod yn aros fel y mai gan fo ni wedi cyhoeddi dyddiadau am y flwyddyn o'n blaenau. REW yn cytuno.
- Nodwyd bod angen i'r sawl sydd yn cymryd y cofnodion sicrhau eu bod yn cael eu cyfieithu ac wedyn yn cael eu rhoi ar y wefan. Angen ychwanegu rhai diweddar.

Aethpwyd ymlaen at y cofnodion.

- Cynigodd CR ei bod yn gofnod cywir. Eiliwyd gan DR.
- Diolchwyd i AV am gadw cofnodion ac i Enlli Vaughan am eu cyfieithu.

Gweithredoedd adran 3:

- Nodwyd bod angen i'r sawl sydd yn cymryd y cofnodion sicrhau eu bod yn cael eu cyfieithu ac wedyn yn cael eu rhoi ar y wefan. (PAWB)
- Angen ychwanegu'r cofnodion diweddar ar y safle we.(PWY BYNNAG GYMERODD Y COFNODION YN DDIWEDDAR)

4. Materion yn codi o'r cofnodion

- **8.1 - Mandad Banc** - dal yn stryglo cael sortio'r Mandad. EW yn mynd i drafod hefo EHE
- **9.1 – Swydd y Clerc** - Cyngor Cymuned Eglwysbach yn awyddus i ni hysbysebu ar y cyd. Bwrw ymlaen. Bydd rhaid trafod y cyflog arwahan.
- **9.2 - Ôl-daliad** - Am gysylltu â'r Cyfrifydd. Am wneud slip cyflog iddi a gyrru ymlaen hefo'r ôl-daliad.
- Codwyd y mater o Arhosfa Bws Pentre Isa - Mae angen mwy o waith nag ychydig o baent i'r arhosfa. Gofyn i Bob Tŷ Capel rhoi pris ar wneud ychydig o waith i'w ddiweddarau.
- Mae'r Nodyn o Drosoglwyddo (Remittance Advice) ynglŷn a derbyn Precept 2017/18 wedi mynd i'r cyn clerc. Angen newid y cyfeiriad gyda CBSC.
- Siarter Cynghorau Tref a Chymuned. Mae angen ail edrych ar y Siarter yn dilyn Cyfarfod Cynghorau Thref a Chymuned yn ddiweddar. Angen gyrru'r ddogfen ymlaen i bawb a'i thrafod yn y cyfarfod nesaf

Gweithredoedd rhan 4:

- EW yn mynd i drafod hefo EHE ynglŷn â sortio'r Mandad.(EW & EHE)
- Bwrw ymlaen gyda hysbysebu am Glerc ar y cyd gyda Cyngor Cymuned Eglwysbach.(EW)
- Codwyd y mater o Arhosfa Bws Pentre Isa - Mae angen mwy o waith nag ychydig o baent i'r arhosfa. Gofyn i Bob Tŷ Capel rhoi pris ar wneud ychydig o waith i'w ddiweddarau. (AV)
- Mae'r Nodyn o Drosoglwyddo (Remittance Advice) ynglŷn a derbyn Precept 2017/18 wedi mynd i'r cyn clerc. Angen newid y cyfeiriad gyda CBSC. (DR)
- Mae angen ail edrych ar y Siarter Cynghorau Tref a Chymuned. Angen gyrru'r ddogfen ymlaen i bawb a'i thrafod yn y cyfarfod nesaf (EHE & EW)

5. Materion Ffyrdd ac Amgylchedd

5.1 Adeiladau'r Hen Efail

- Trafodwyd eisoes uchod.

5.2 Gwyro llwybr cyhoeddus rhif 86 (Bodrach)

- Llwybr yn mynd drwy'r rhewl wedi ei wyro. Er gwybodaeth yn unig.

5.3 Gwasanaeth Ailgylchu symudol

- Yn bellach mae gwasanaeth ail-gylchu yn Llangernyw ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis.
- Peilot o 2.5 mlynedd ydyw sydd wedi ei gyllido gan brosiect Conwy Cynhaliol ynghyd a CBSC.
- Y nod yw ceisio profi'r angen am leoliad ail gylchu parhaol yn yr ardal wledig.
- Mae'r gwasanaeth wedi dechrau dydd Sadwrn 20^{fed} o Fedi 2018.
- Mae angen annog pobl i'w ddefnyddio.

5.4 Rheolau Mynwentydd Bro Cernyw

- Mae'r Rheolau Mynwentydd wedi ei diwygio.
- AV wedi ysgrifennu wedi rhai Saesneg.
- CR wedi gwneud y rhai Cymraeg.
- CR am eu gyrru i'r cyfeiriad e-bost Cyngor Cymuned i bawb ei darllen.
- Eitem i'w drafod ar yr agenda nesa.

Cyffredinol Mynwentydd

- Gwaith ar y fynwent Llangernyw wedi ei ddarfod. Kevin Roberts wedi clirio'r rwbel ac wedi ail-blannu hefyd.

Gweithred rhan 5:

- Gyrru'r Rheolau Mynwentydd diwygiedig i'r cyfeiriad e-bost Cyngor Cymuned i bawb ei darllen (CR)

6. Ceisiadau Cynllunio

- Dim ceisiadau wedi eu cyflwyno mis yma.

7. Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru – Adroddiad

- Cafwyd adroddiad cynhwysfawr ar lafar yn dilyn y Cadeirydd fod wedi mynychu cyfarfod blynyddol Un Llais Cymru.
- Er ei bod wedi mwynhau, fe wnaed y sylw a oedd yn werth da o amser ein cynrychiolwyr yn trafailio cyn belled ag aberthu Sadwrn cyfan ar gyfer y Gynhadledd. Rhywbeth i'w gysidro erbyn blwyddyn nesaf.

8. Materion ariannol

8.1 Mantolen cyfrif banc y Cyngor Cymuned – Diweddariad

- Mantolen wedi ei ddiweddarau ar gyfer diwedd mis Medi 2018 gan DR. Diolchwyd i DR am ei gwaith yn ei ddiweddarau.
- Angen gwneud cais am ôl-daliad TAW. DR am weithio hefo EHE

8.2 Presept

- Eitem ar gyfer yr agenda nesa. Rhaid treulio rhan helaeth o'r cyfarfod nesaf yn trafod y mater hwn.
- Pawb i ddod a chopi o'r fantolen hefo nhw i'r cyfarfod nesaf a rhoi ychydig o feddwl i'r costau a lle fydd angen blaenoriaethu gwariant a.y.b. cyn y cyfarfod.

Gweithred rhan 8:

- Angen gwneud cais am ôl-daliad TAW. (DR & EHE)
- Pawb i ddod a chopi o'r fantolen hefo nhw i'r cyfarfod nesaf a rhoi ychydig o feddwl i'r costau a lle fydd angen blaenoriaethu gwariant a.y.b. cyn y cyfarfod.

9. Adroddiad gan y Cynghorydd Sir

- Derbyniwyd adroddiad cynhwysfawr am waith y Cyng. Sir a fei diolchwyd amdano.
- Penderfynwyd gyrru hwn ymlaen yn electroneg i'r holl aelodau i'w ddarllen ym mhwysau eu hunain.

Gweithred rhan 9:

- Gyrru adroddiad y Cynghorydd Sir yn electroneg i bawb (EW)

10. Blychau Teliffon Llangernyw a Phandy Tudur - Diweddariad

- Llythyr wedi mynd at Prifathrawes YBC i holi os oes dal diddordeb mewn cymryd Blwch Ffon Llangernyw drosodd.
- Diolch i'r Tîm Gwledig (Conwy Cynhaliol) yng Nghonwy am sortio'r mater o ran trydan i'r Blwch Teliffon Pandu Tudur. Cadarnhaodd BT na fyddant yn torri'r trydan i'r blwch i ffwrdd.
- Angen llythyr gan y Cyngor Cymuned i Pwyllgor Cymdeithasol Pandu Tudur yn cadarnhau ein bod yn trosi'r blwch ffon drosodd fel rhodd.

Gweithred rhan 10:

- Angen llythyr gan y Cyngor Cymuned i Pwyllgor Cymdeithasol Pandu Tudur yn cadarnhau ein bod yn trosi'r blwch ffon drosodd fel rhodd. (EW)

11. Dyletswyddau Cyngorwyr

- Rhannwyd y rhestr o ddyletswyddau fel ag yr oedd gyda'r aelodau.
- Aethpwyd drwy'r rhestr ai ddiwygio.
- Nodwyd fod angen i bawb i reportio ei faterion lleol ei hun ar y wefan ac annog pobl y fro i unrw achosion eu hunain. Nid rôl y Cynghorydd Sir yw reportio ar faterion felly.

12. Arolwg Adeiladau Gwag ar gyfer defnydd busnes/masnachol

- Fe benodwyd cwmni BURUM gan Gonwy Cynhaliol i ymgymryd ag arolwg o economi Conwy Gwledig.
- Pwrpas yr arolwg yw ceisio canfod adeiladau gwag addas a chymwys ac sydd ar gael at bwrpas busnes/masnachol phriodol i'w roi ar Restr Eiddo Gwag Conwy Wledig.
- Er mwyn helpu i wireddu'r nod hwn mae angen diweddarau'r gofrestr y mae Canolfan Fusnes Conwy yn ei gadw a'i ddefnyddio ar hyn o bryd a chreu un penodol newydd ar gyfer Conwy Wledig.
- I gychwyn y broses mae gofyn i bob cyngor cymuned i ystyried y mater, cynhyrchu rhestr o safleoedd posibl, a llenwi holiadur.

Gweithred rhan 12:

- Angen i'r holl aelodau feddwl am yr adeiladau sydd yn y tri phentref a gwneud nodyn ohonyn nhw erbyn y cyfarfod nesaf. (PAWB)

13. Biliau

- Pentan – talu
- Odyn - £12.00 – talu
- D Evans - £150.00 – Mynwent Gwytherin – Toriad Ychwanegol
- A Vaughan - £39.90 – Bylbiau a Blodau
Diolchwyd i AV ac Enid Davies am blannu'r bylbiau yn wirfoddol.

14. Gohebiaeth

- Derbyniwyd gohebiaeth positif gan aelod o'r cyhoedd am lendid y toiledau yn Llangernyw tra yn eu defnyddio wrth basio drwy'r pentref yn ddiweddar.
- Diolchwyd i bawb am ei gwaith gwirfoddol a diflino yn agor a chau a glanhau'r toiledau.

15. Materion Lleol

- Fe ymgeisiwyd yng nghystadleuaeth Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW) / Campaign for the Protection of Rural Wales (CPRW) a derbyniodd Llangernyw wobwr Pentref Conwy 2018 a gwobr o £25.00. Derbyniwyd beirniadaeth a chanmoliaeth uchel iawn fel rhan o'r gystadleuaeth fod Llangernyw yn bentref bywiog iawn ac yn llawn ysbryd cymunedol. Angen felly lledaenu'r neges am y llwyddiant gan fod yr Ysgol, Y Stag, Amgueddfa Syr Henry Jones, Y toiledau cymunedol a nifer eraill wedi ei son am (gweler y feirniadaeth ynghlwm).
- Baw ci yn dal yn broblem yn Glan Collen

16. Dyddiad y cyfarfod nesaf

- Tachwedd 28ain 2018

Eitemau ar gyfer agenda mis Tachwedd 2018

1. Galwad Agored – Celfi Adnewyddadwy
2. Presept
3. Siarter Cynghorau Tref a Chymuned
4. Rheolau Mynwentydd Bro Cernyw
5. Adborth o gwrs GDPR – AV

Gweithredoedd:

Gweithredoedd adran 5 – Adeiladau'r Hen Felin:

- DR i edrych drwy ohebiaeth y Cyngor Cymuned (DR)
- Cyng. GLL i wneud achos i'r Swyddog Gorfodaeth CBSC (Cyng. GLL)

Gweithredoedd adran 3: Cofnodion

- Nodwyd bod angen i'r sawl sydd yn cymryd y cofnodion sicrhau eu bod yn cael eu cyfieithu ac wedyn yn cael eu rhoi ar y wefan. (PAWB)
- Angen ychwanegu'r cofnodion diweddar ar y safle we(PWY BYNNAG GYMERODD Y COFNODION YN DDIWEDDAR)

Gweithredoedd rhan 4:

- EW yn mynd i drafod hefo EHE ynglŷn â sortio'r Mandad.(EW & EHE)
- Bwrw ymlaen gyda hysbysebu am Glerc ar y cyd gyda Cyngor Cymuned Eglwysbach.(EW)
- Codwyd y mater o Arhosfa Bws Pentre Isa - Mae angen mwy o waith nag ychydig o baent i'r arhosfa. Gofyn i Bob Tŷ Capel rhoi pris ar wneud ychydig o waith i'w ddiweddar. (AV)
- Mae'r Nodyn o Drosgrlwyddo (Remittance Advice) ynglŷn a derbyn Precept 2017/18 wedi mynd i'r cyn clerc. Angen newid y cyfeiriad gyda CBSC. (DR)
- Mae angen ail edrych ar y Siarter Cynghorau Tref a Chymuned. Angen gyrru'r ddogfen ymlaen i bawb a'i thrafod yn y cyfarfod nesaf (EHE & EW)

Gweithred rhan 5:

- Gyrru'r Rheolau Mynwentydd diwygiedig i'r cyfeiriad e-bost Cyngor Cymuned i bawb ei darllen (CR)

Gweithred rhan 8:

- Angen gwneud cais am ôl-daliad TAW. (DR & EHE)
- Pawb i ddod a chopi o'r fantolen hefo nhw i'r cyfarfod nesaf a rhoi ychydig o feddwl i'r costau a lle fydd angen blaenoriaethu gwariant a.y.b. cyn y cyfarfod.

Gweithred rhan 9:

- Gyrru adroddiad y Cynghorydd Sir yn electroneg i bawb (EW)

Gweithred rhan 10:

- Angen llythyr gan y Cyngor Cymuned i Pwyllgor Cymdeithasol Pandy Tudur yn cadarnhau ein bod yn trosi'r blwch ffon drosodd fel rhodd. (EW)

Gweithred rhan 12:

- Angen i'r holl aelodau feddwl am yr adeiladau sydd yn y tri phentref a gwneud nodyn ohonyn nhw erbyn y cyfarfod nesaf. (PAWB)

Arwyddwyd:.....

Dyddiad: